

## Cynulliad y Werin dros Natur Polisi Teithio

Yn y DU, trafndiaeth yw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr ac fel elusennau amgylcheddol, mae gan WWF, yr RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol bolisiâu i leihau eu hallyriadau lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol. Mae'r Polisi Teithio hwn wedi'i gynllunio i fod yn ganllaw i fynychwyr Cynulliad y Werin dros Natur er mwyn helpu i leihau'r allyriadau a achosir gan deithio i/o'r penwythnosau wyneb yn wyneb yn Birmingham. Gan y bydd costau teithio llawn i gyfranogwyr yn cael eu talu gan yr elusennau comisiynu, mae cynaliadwyedd yn ystyriaeth allweddol.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd yr opsiwn carbon isaf weithiau yn gwneud logisteg yn anodd, weithiau'n amhosibl, yn enwedig i fynychwyr sy'n dod o leoliadau pellach i ffwrdd a/neu leoliadau mwy gwledig. Rydym hefyd yn deall y gallai fod gan rai pobl ofynion hygrychedd a/neu ddyletswyddau gofalu a allai effeithio ar benderfyniadau. Am y rheswm hwnnw, bydd unrhyw beth sydd y tu allan i'r canllawiau yn cael ei ystyried fesul achos.

### **Trafnidiaeth gyhoeddus**

Lle bo hynny'n ymarferol, anogir mynychwyr i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio i'r cynulliad. Mae hyn yn cynnwys defnyddio:

- Bysiau a choetsys
- Trenau
- Fferïau

Bydd pawb sy'n mynychu yn cael arweiniad clir ar sut i gyrraedd y lleoliad gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Lle bo'n bosibl, anogir cerdded/beicio i fynd i/o orsafoedd.

## Taxis/cerbydau preifat

Trafnidiaeth gyhoeddus yw'r dull teithio a ffefrir, ond efallai y bydd achlysuron pan fydd angen i fynychwyr ddefnyddio taxi/eu cerbyd eu hunain. Gall hyn fod yn berthnasol i'r rhai sydd ag anableddau neu broblemau iechyd a/neu'r rhai sy'n byw yn wledig lle mae opsiynau trafniadaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Os oes angen taxi i fynd o/i orsafoedd, yna gellir trefnu i rannu lifft gyda chymorth trefnwyr digwyddiadau.

## Hedfan

Mae hedfan yn cynhyrchu llawer mwy o allyriadau carbon na dulliau eraill o deithio, felly am y rheswm hwnnw, dim ond o dan amgylchiadau penodol y caniateir hedfan i Birmingham:

- O Ogledd Iwerddon (gyda fferiau ar gael i unrhyw un sy'n well ganddo beidio â hedfan).
- O Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban.
- Lle byddai amseroedd teithio un ffordd yn hwy na chwe awr.
- Lle mae anghenion hygrychedd.
- Pan fydd amgylchiadau personol rhywun yn golygu nad yw amser teithio hyd at chwe awr yn ymarferol a byddai'n rhwystr i fynychu (e.e. cyfrifoldebau gofalu/dibynyddion)

Bydd unrhyw beth sydd y tu allan i'r eithriadau uchod (gan gynnwys lle mae gwaith yn rhwystr, yn hytrach na gofalu) yn cael ei ystyried fesul achos ac yn mynd at yr arweinwyr dynodedig i'w gymeradwyo:

- Helen Meech (RSPB)
- Alex Hunt (Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- Kat Machin (WWF) trwy gadarnhad y Cyfarwyddwr Gweithredol (Kate Norgrove/Katie White)